

**Community
Housing
Cymru
Events**



Parth Datblygu 2019

Gwesty Metropole, Llandrindod
10 Hydref 2019

#onebig19



Parth Datblygu *noddir gan Cyngghrair Caffael*

Cymreig

Gwesty Metropole, Llandrindod

10 Hydref 2019

9.00am	Cofrestru a Lluniaeth
9.45am	Croeso
	Ystafelloedd David Spencer
	<i>Will Atkinson, Rheolydd Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru</i> @WILLA_CHC
9.55am	Newid Ymddygiad
	<i>Dr Paul Chadwick, Uwch Gymrawd Addysgu, Coleg Prifysgol Llundain</i>
	Mae Dr Paul Chadwick yn Uwch Gymrawd Addysgu yng Nghanolfan Newid Ymddygiad UCL yn ogystal ag yn Hyfforddydd a Seicolegydd Ymgynghorol Clinigol ac Iechyd gydag arbenigedd mewn newid ymddygiad ar gyfer oedolion a phlant. Yn y sesiwn ryngweithiol yma bydd Paul yn galluogi cynrychiolwyr i ddynodi'r hyn maent yn ceisio ei gyflawni gyda'u rhaglen newid ac os ydynt yn dylanwadu ar y bobl gywir i gynnal newid.
10.40am	Lansio Rhaglen Dyfodol CHC
	<i>Edwina O'Hart, Cyfarwyddydd Cynorthwyol, Gwasanaethau Aelodau a Chyfathrebu, Cartrefi Cymunedol Cymru</i> @EdwinaOHart
11.00am	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio, noddir gan Hugh James Cyfreithwyr

11.30am	Datgarboneiddio - Sut mae gwneud ein cartrefi yn addas i'r dyfodol?
	<i>Ystafelloedd Gardd</i>
	Mae adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, 'UK housing: Fit for the future?', yn asesu os yw stoc tai y Deyrnas Unedig wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer heriau newid hinsawdd, o ran gostwng allyriadau o gartrefi Prydain yn ogystal â sicrhau bod cartrefi wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. Bydd Jenny yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr adroddiad i gynrychiolwyr. Bydd hefyd yn crynhoi'r ymchwil a gynhaliwyd i lywio argymhellion y Pwyllgor ar ddatgarboneiddio ac addasu stoc tai Prydain erbyn 2050 a pharatoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.

12.15pm	<u>Gweithdai</u> Goresgyn y Rhwystrau i Ddarparu Tai Fforddiadwy mewn Ardaloedd Gwledig a Threfol.
	<i>Geoff Fox, Ark Consultancy a Rachel George, Cartrefi Dinas Casnewydd</i> @ArkConsultLtd @NewportCityH
	<i>Ystafell Gardd 1</i>
	Mae tai cymdeithasol yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru, sy'n cyd-gyllido swyddogion tai gwledig mewn 7 is-ranbarth. Bydd y sesiwn yn dynodi'r meysydd sy'n atal darparu tai fforddiadwy newydd mewn ardaloedd gwledig a beth yw'r cyfleoedd i oresgyn y rhwystrau.

12.15pm	<u>Gweithdai</u> Diogel drwy Ddyluniad
	<i>Michael Harvey a Rob Chapman, Heddlu Dyfed Powys</i>
	<i>Ystafell Brynbuga</i>
	Mae'r ymarfer o ddylunio atal troseddu yn hyrwyddo cymunedau diogelach ac yn gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy wella ansawdd bywyd drwy gysyniad, cymhwysiad a datblygiad cynlluniau Diogel drwy Ddyluniad.

	Yn y sesiwn ryngweithiol yma bydd Rob a Michael yn llywio cynrychiolwyr drwy brosesau cynllunio a dylunio'r amgylchedd. Byddant yn ymchwilio adeiladau unigol a dylunio mewnol yn ogystal â chymdogaethau ehangach, gan ddangos sut i gynhyrchu cynlluniau sy'n 'addas i'r diben' tra'n sicrhau cydbwysedd rhwng effeitholrwydd osgoi problemau troseddu cyn adeiladu a hyblygrwydd eu trin drwy reolaeth a chynnal a chadw dilynol.
--	---

12.15pm	<u>Gweithdai</u> Iechyd Meddwl mewn Adeiladu
	<i>Jenny Herdman, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF)</i> <i>@HomeBuildersFed</i>
	Ystafell Gardd 2
	Mae'r Deyrnas Unedig yn wynebu heriau iechyd meddwl enfawr yn y gwaith ac mae cost ddynol iechyd meddwl gwael yn y gwaith yn uchel. Mae dros 300,000 o bobl yn awr yn dweud fod ganddynt broblemau iechyd meddwl hirdymor ac mae gan 15% o'r bobl mewn gwaith symptomau o gyflyrau iechyd meddwl presennol. Mae'r diwydiant adeiladu yn un o'r rhai y mae iechyd meddwl yn effeithio waethaf arno oherwydd y nifer o swyddi risg uchel. Mae 56.7% o weithwyr cyflogedig wedi profi problemau iechyd meddwl a dywedodd 63.3% eu bod wedi cuddio'r gwir resymau pam y buont yn absennol, gan ddangos fod stigma yn dal i fod am iechyd meddwl. Mae'r HBF wedi uno gyda'r Lighthouse Charity, elusen sy'n ymroddedig i roi cefnogaeth emosiynol ac ariannol i'r gymuned adeiladu a'u teuluoedd. Bydd cynrychiolwyr yn clywed sut y bydd yr ymgyrch yn rhoi cefnogaeth hanfodol yn cynnwys darparu llinell gymorth gyfrinachol 24/7 i'r diwydiant ac ailhyfforddi gweithwyr a gafodd eu hanafu neu sydd wedi dioddef o salwch sy'n golygu na allant ddychwelyd i'w gwaith arferol.

1.15pm	Cinio, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
2.15pm	Gwir Gost Tai Arloesol
	<i>Sarah Laing Gibbons a Leanne Roberts, Llywodraeth Cymru</i> <i>@LlywCymru</i> <i>Gareth Davies, Tai Coastal @CoastalHousing</i>

	<i>Mark McKenna, Down to Earth @D2EProject</i>
	<i>Ystafell Gardd</i>
	Bydd ein panel nodedig yn arwain trafodaeth ar ddatblygu tai arloesol. Byddant yn ymchwilio manteision, cyfyngiadau, cyfleoedd a chwestiynau heb eu hateb dulliau modern o adeiladu, yn ogystal â herio camsyniadau cyffredin am gost a gwerth.

3.00pm

Gweithdai

Tyfu Gofodau Gwyrdd

	<i>Tyfu Gofodau Gwyrdd, Linc Cymru</i> <i>@greeninglinc</i>
	Ystafell Gardd 1
	Mae Tyfu Gofodau Gwyrdd yn brosiect a gyllidir gan Cyfoeth Naturiol Cymru gan weithio gyda Linc Cymru, sy'n anelu i gynyddu mynediad i ofod gwyrdd er budd llesiant. Bydd cynrychiolwyr yn clywed sut mae'r prosiect yn datblygu dealltwriaeth o ail-ddychmygu sut y gellir defnyddio gofodau gwyrdd cymdeithasau tai yn well i gynyddu iechyd er budd llesiant. Bydd cynrychiolwyr hefyd yn darganfod rhwystrau a gafodd eu goresgyn hyd yma a sut mae Linc wedi newid y sgwrs gyda chymunedau a thenantiaid i ail-ddychmygu'r gofod gwyrdd ar garreg eu drws.

3.00pm

Gweithdai

Cynghrair Caffael Cymru

	<i>Neil Barker, Cynghrair Caffael Cymru</i> <i>@WelshProcure</i>
	Ystafell Gardd 2
	Yn dilyn y brif sesiwn, bydd Neil yn ymchwilio'r materion ar gyfer ôl-osod a sut yr ydym ni fel sector yn symud ymlaen gyda'r agenda datgarboneiddio yn y Rhaglen Tai Fforddiadwy.

3.00pm

Gweithdai

Ymgynghoriad Rhan L - Rheoliadau Adeiladu

*Francois Samuel, Llywodraeth Cymru
@LlywCymru*

Ystafell Brynbuga

Bydd Francois yn crynhoi'r adolygiad o Ran L Rheoliadau Tai, y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg a rôl Rhan L wrth gyflawni'r agenda datgarboneiddio ehangach.

4.00pm

Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio, noddir gan Hugh James Cyfreithwyr

4.30pm

Allgau Cymdeithasol - A ydym yn adfywio am y rhesymau cywir?

Yr Athro Anne Power, Athro Emeritws Polisi Cymdeithasol, LSE

Ystafelloedd David Spencer

Mae Anne Power yn Athro Emeritws Polisi Cymdeithasol yn Ysgol Economeg Llundain (LSE) ac yn Bennaeth Tai a Chymunedau LSE, grŵp ymchwil o fewn y Ganolfan Dadansoddi Allgau Cymdeithasol. Mae'n awdur llawer o lyfrau, adroddiadau ac erthyglau ar dai, dinasoedd a chymunedau incwm isel.

Lle mae rhai pobl yn gweld adeiladau diffaith, afiach a gwrthgymdeithasol y dylid eu dymchwel, mae eraill yn gweld cartrefi, cymunedau a chyfleoedd ar gyfer adfywio ac adnewyddu.

Bydd Anne yn defnyddio ei phrofiadau ac yn herio cynrychiolwyr i ystyried y ffactorau cymdeithasol mewn tai ac adfywio. Bydd yn annog sefydliadau i geisio ymgysylltiad ystyrlon gyda phreswylwyr a chymunedau i atal dadleoli cymunedol a gwrthdaro.

5.15pm

Diwedd Diwrnod 1

7.30 pm

Derbyniad Diodydd a noddwyd drwy garedigrwydd Ark Consultancy

8.00pm

Cinio'r Gynhadledd, gydag adloniant i ddiliyn

